Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# **Briff Ymchwil:** Negodiadau ar ymadawiad y DU â'r UE: Adroddiad Monitro - 11 Mehefin 2018



www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6219**
E-bost: **Manon.George@assembly.wales**
Twitter: **@SeneddResearch**
Blog: **SeneddResearch.blog**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Briff Ymchwil

## Negodiadau ar ymadawiad y DU â'r UE: Adroddiad Monitro - 11 Mehefin 2018

**Awdur:** Joseph Champion, Manon George ac Alastair Grey
**Dyddiad:** Mehefin 2018
**Rhif yr ymholiad:** 18-040

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ..... 1**

Crynodeb o'r datblygiadau ..... 1

**2. Y datblygiadau diweddaraf a'r dogfennau a gyhoeddwyd ..... 3**

Negodiadau ..... 3

Partneriaeth yn y dyfodol ..... 6

Bod yn Barod ar gyfer Brexit ..... 8

Deddfwriaeth y DU ..... 10

Datblygiadau'r Cynulliad ar ddeddfwriaeth Brexit ..... 12

Dogfennau a Phapurau Sefyllfa ..... 13

**3. Meysydd allweddol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol ..... 40**

Paratoi ar gyfer Brexit ..... 40

Goblygiadau Brexit i Gymru ..... 41

**4. Ymateb Llywodraeth Cymru ..... 43**

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau sy'n ymwneud â Negodiadau Erthygl 50 ynghylch ymadawiad y DU â'r UE ers 14 Mai.

Mae'r papur hwn yn rhoi:

- Crynodeb o'r datblygiadau diweddaraf, y dogfennau a'r ddeddfwriaeth a gyhoeddwyd;
- Dadansoddiad o'r materion allweddol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol ('y Pwyllgor'); a
- Chrynodeb o ymateb Llywodraeth Cymru i'r datblygiadau diweddaraf.

## Crynodeb o'r datblygiadau

- Ar 9 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei **Fframwaith ar gyfer Partneriaeth Diogelwch y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd**,
- Ar 14 Mai, cafwyd araith gan Michel Barnier yng **nghynhadledd Sefydliad Astudiaethau Diogelwch yr UE**, gan nodi bod y bartneriaeth agos rhwng y DU a'r UE ar bolisi tramor, diogelwch ac amddiffyn o fudd i'r ddwy ochr.
- Ar 16 Mai, cafwyd araith gan Gyfarwyddwr Gweithredol Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y DU ac yn **uwch-gynhadledd cyfraith cystadleuaeth yr UE**, gan nodi paratoadau a chynlluniau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer Brexit.
- Ar 22 Mai, **cadarnhaodd Llywodraeth y DU y bydd cronfeydd rhanbarthol yr UE yn cael eu disodli** yn y DU gan 'gronfa ffyniant a rennir y DU', yr ymgynghorir ar y gwaith o'i dylunio a'i rhoi ar waith yn ddiweddarach eleni.
- Ar 23 Mai, cyhoeddodd y DU ei **fframwaith ar gyfer diogelu data'r bartneriaeth rhwng y DU a'r UE**, a ddilynwyd ar 25 Mai, gan **nodyn technegol ar gyfnewid a diogelu gwybodaeth gyfrinachol**. Mae'r dogfennau hyn yn canolbwyntio ar gynigion y DU ar gyfer trosglwyddo data personol rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit. Ar 26 Mai, gwrthododd Michel Barnier gynigion y DU mewn **araith yn 28ain Gyngres y Ffederasiwn Cyfraith Ewropeaidd Rhyngwladol**,
- Ar 23 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth y DU hefyd **fframwaith ar gyfer partneriaeth rhwng y DU a'r UE ym maes gwyddoniaeth, ymchwil ac**

**arloesedd**, gan amlinellu ei weledigaeth ar gyfer cytundeb pellgyrhaeddol â'r UE ym maes gwyddoniaeth ac arloesedd,

- Hefyd ar 23 Mai, rhoddodd Jon Thompson, pennaeth CThEM, **dystiolaeth i Bwyllgor Dethol Trysorlys Tŷ'r Cyffredin**. Yn y dystiolaeth honno, amcangyfrifodd y costau sy'n gysylltiedig â rhoi cynigion partneriaethau tollau Llywodraeth y DU ar waith.

- Ar 24 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **nodyn technegol ar ddiogelwch, gorfodi'r gyfraith a chyfiawnder troseddol**, a **nodyn technegol ar ymgynghori a chydweithredu ar ddiogelwch allanol**, a **nodyn technegol ar gyfranogiad y DU yn Galileo**.

- Cynhaliwyd **cyfarfod cyntaf y Fforwm Gweinidogol (Negodiadau'r UE) newydd** yng Nghaeredin ar 24 Mai. Dywedir bod y fforwm newydd yn rhoi cyfle i'r gweinyddiaethau datganoledig gyfrannu wrth ddatblygu safbwynt negodi'r DU o ran Brexit.

- Ar 24 Mai, cyhoeddodd Pwyllgor Gadael yr Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin **ei adroddiad diweddaraf** ar gynnydd negodiadau'r DU ar ymadael â'r UE (mis Mawrth i fis Mai 2018), gan dynnu sylw at y ffaith bod y Llywodraeth wedi nodi nad yw'n debygol y bydd y cynnig hwyluso uchaf na'r bartneriaeth tollau newydd, os deuir i gytundeb arnynt, yn barod mewn pryd yn ystod y cyfnod trosglwyddo/gweithredu 21 mis.

- Ar 29 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth y DU lythyrau yn tynnu sylw'r adran at **gyfarwyddyd gweinidogol yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth**, yn awdurdodi gwariant ar ddatblygu systemau newydd ar gyfer cofrestru cerbydau cludo nwyddau ac ôl-gerbydau wrth baratoi at Brexit.

- Ar 30 Mai, datgelodd y Comisiwn Ewropeaidd **ei gynnig Erasmus ar gyfer y saith mlynedd nesaf**, gan nodi y bydd hawl i drydydd gwledydd dalu i gymryd rhan.

- Rhwng 5 ac 8 Mehefin, cynhaliwyd cylch o **negodiadau Erthygl 50 rhwng yr UE a'r DU** ym Mrwsel.

- Ar 7 Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei **nodyn technegol ar drefniad tollau dros dro**, sy'n nodi cynnig y DU i elfen tollau trefniad fodloni ei hymrwymiadau o ran Gogledd Iwerddon.

# 2. Y datblygiadau diweddaraf a'r dogfennau a gyhoeddwyd

## Negodiadau

Ni fu fawr o ddatblygiadau sylweddol yn y negodiadau yn ystod y cyfnod adrodd hwn gan fod Llywodraeth y DU yn trafod newidiadau i **drefniadau tollau a gynigiodd** ym mis Awst 2017 a glynodd wrth ei phenderfyniad i ohirio cyhoeddi Papur Gwyn ar ei gweledigaeth o'r berthynas yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE. Ar 17 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **grynodeb o gyfarfod** rhwng Prif Weinidog y DU, yr Arlywydd Jean-Claude Juncker, yr Arlywydd Donald Tusk a'r Taoiseach Leo Varadkar o Iwerddon, gan dynnu sylw at y ffaith na chytunwyd ar lawer ers cyhoeddi'r Cytundeb Ymadael Drafft ym mis Mawrth 2018.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi **rhaglen o negodiadau Erthygl 50 rhwng yr UE a'r DU** a gynhelir ym Mrwsel rhwng 5 ac 8 Mehefin 2018 (yn dilyn y **gyfres olaf o gyfarfodydd ym mis Mai**), pan fydd y Cytundeb Ymadael Drafft, y ffin rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon a'r berthynas yn y dyfodol yn cael eu trafod.

Mae'r UE a Llywodraeth y DU wedi amlinellu rhai o'u disgwyliadau ymhellach o agweddau allweddol ar y negodiadau. Mewn araith ar 14 Mai yng **nghynhadledd Sefydliad Astudiaethau Diogelwch yr UE**, dywedodd Michel Barnier:

> Solidarity is not to be negotiated. Any trade-off between security and trade would lead to an historic failure - and it would be a strategic mistake, benefiting those who want to weaken us…the EU and the UK's interests are likely to overlap in foreign, security and defence policy. As a consequence, I firmly believe that a close partnership is in our mutual interest.

Nododd, er na chaiff y DU gymryd rhan ym mhenderfyniadau'r UE, gan gynnwys polisi tramor, y gallai perthynas yn y dyfodol fod yn seiliedig ar gyfres o ddulliau – deialog, ymgynghori, cydlynu, cydweithredu a chyfnewid gwybodaeth.

Yn yr araith honno, croesawodd Barnier gyhoeddi **fframwaith ar gyfer partneriaeth rhwng y DU a'r UE ym maes diogelwch** gan Lywodraeth y DU ar 9 Mai. Mae'r fframwaith hwn yn tynnu sylw at syniadau Llywodraeth y DU y bydd gan berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol ddwy bartneriaeth graidd: economaidd a diogelwch. Mae'r fframwaith yn amlinellu'r canlynol ymhellach:

> The UK wants to reach a security partnership with the EU that promotes our shared security and develops our cooperation.
>
> It must respect both the decision--making autonomy of the European Union and the sovereignty of the United Kingdom.

Gan adeiladu ar y fframwaith, ar 24 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **nodyn technegol ar ddiogelwch, gorfodi'r gyfraith a chyfiawnder troseddol**, sy'n rhoi dadansoddiad o'r cynseiliau presennol ar gyfer cydweithredu rhwng yr UE a thrydydd gwledydd ym maes diogelwch, gorfodi'r gyfraith a chyfiawnder troseddol cyn nodi cynigion y DU ar gyfer cytuniad diogelwch mewnol newydd â'r UE ar gyfer cydweithredu yn y dyfodol ar draws y meysydd hyn. Ar yr un diwrnod, cyhoeddodd **nodyn technegol ar ymgynghori a chydweithredu ar ddiogelwch allanol**, sy'n amlinellu opsiynau ar gyfer trefniadau ymgynghori a chydweithredu rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol ar draws polisi tramor, polisi diogelwch ac amddiffyn cyffredin, galluoedd amddiffyn a datblygu ac offerynnau allanol.

Ar 23 Mai, cyhoeddodd y DU ei **fframwaith ar gyfer diogelu data'r bartneriaeth rhwng y DU a'r UE**, a ddilynwyd ar 25 Mai, gan **nodyn technegol ar gyfnewid a diogelu gwybodaeth gyfrinachol**. Mae'r dogfennau hyn yn canolbwyntio ar gynigion y DU ar gyfer trosglwyddo data personol rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit. Roedd y cynigion hynny yn nodi y bydd cyfundrefn diogelu data'r DU yn gwbl gyson â chyfraith yr UE ac yn honni na fydd dull digonolrwydd safonol yr UE[1] ar gyfer trydydd gwledydd yn briodol ar gyfer y DU o ystyried ehangder a dyfnder y berthynas rhwng y DU a'r UE. Yn lle hynny, mae'n galw am fodel newydd, a fyddai'n gwneud y canlynol:

> [...] provide for continued regulatory co--operation and consistent enforcement through an appropriate ongoing role for the ICO [information commissioner's office] on the European Data Protection Board, to the benefit of consumers and businesses across the EU. [and]
>
> It should ensure UK businesses and consumers are effectively represented under the EU's new 'One Stop Shop' mechanism for resolving data protection disputes when doing business in the EU.

Gwrthododd Michel Barnier y cynigion hyn ar 26 Mai mewn **araith yn 28ain Gyngres y Ffederasiwn Cyfraith Ewropeaidd Rhyngwladol.**

---

[1] Mae Penderfyniadau Digonolrwydd yn caniatáu i'r Comisiwn Ewropeaidd gydnabod yn ffurfiol fod trydydd wlad yn darparu safonau diogelu data sy'n gyfatebol, yn y bôn, i'r rhai a gymhwysir yn yr UE, felly gall data personol lifo'n rhydd heb fesurau diogelu ychwanegol. Felly, mae digonolrwydd yn darparu sail gyfreithiol sy'n galluogi data personol i lifo'n rhydd o'r UE i drydedd wlad.

> [...] we cannot, and will not, share this decision-making autonomy with a third country, including a former Member State who does not want to be part of the same legal ecosystem as us...the UK must understand that the only possibility for the EU to protect personal data is through an adequacy decision.

Nododd fod y gwrthodiad yn deillio o bryderon yr UE ynghylch sicrhau cydymffurfio â chanllawiau diogelu data'r UE ar ôl i'r DU adael yr UE.

Yn yr araith honno, rhoddodd Michel Barnier ddiweddariad cyffredinol hefyd am gynnydd y negodiadau. Wrth wneud hynny, tynnodd sylw at bwysigrwydd dod o hyd i ateb ar sut y caiff y Cytundeb Ymadael ei lywodraethu a sut y bydd y ffin rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon yn cael ei rheoli. Nododd hefyd:

> [...] time is – and will be – short. If we want to lay the foundations of our future relationship before the UK's withdrawal, we need to accelerate. On our side, we are ready to discuss this at political level. We are also ready, at any time, to intensify our negotiations at technical, legal and political level...All we ask for is clarity.
>
> Because, to negotiate effectively, you need to know what the other side wants.

O ran mater llywodraethu'r Cytundeb Ymadael, dywedodd Mr Barnier:

> So far, we have reached an agreement with the UK negotiators on the existence and functioning of a mixed committee which is, as you know, a classic institution in agreements concluded by the European Union and which represents a forum for political dialogue between the parties.
>
> But in no circumstances is it sufficient to ensure the appropriate governance of the Withdrawal Agreement.

Ar 7 Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei **nodyn technegol ar drefniad tollau dros dro**, sy'n nodi cynnig y DU i elfen tollau trefniad fodloni ei hymrwymiadau o ran Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn datblygu safbwynt y DU ar y 'backstop solution' a gynhwysir yn y Cytundeb Ymadael Drafft. Mae'r nodyn yn dweud:

> The UK's proposal is that in the circumstances in which the backstop is agreed to apply, a temporary customs arrangement should exist between the UK and the EU... The temporary customs arrangement will be replaced by a permanent end state settlement, whose terms will need to be agreed by both parties.

Mae Llywodraeth hon y DU yn cynnig y byddai'r trefniad dros dro hwn yn cynnwys:

- Cael gwared ar dariffau, cwotâu, rheolau tarddiad a phrosesau tollau, gan gynnwys datganiadau ar yr holl fasnach rhwng y DU a'r UE;
- Y DU y tu allan i gwmpas y polisi masnachol cyffredin, ac eithrio lle mae'n ofynnol er mwyn galluogi'r trefniad tollau dros dro i weithredu. Bydd hyn yn golygu cymhwyso tariff allanol cyffredin yr UE ar ffin allanol y DU, ochr yn ochr â Chod Tollau'r Undeb a rhannau eraill o'r Polisi Masnachol Cyffredin sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi'r trefniad tollau dros dro i weithredu; a
- Y DU yn gallu negodi, llofnodi a chadarnhau cytundebau masnach rydd â gweddill partneriaid y byd a gweithredu'r elfennau nad ydynt yn effeithio ar weithrediad y trefniad tollau dros dro.

Disgwylir i'r trefniad dros dro hwn ddod i ben ym mis Rhagfyr 2021.

## Partneriaeth yn y dyfodol

Er gwaethaf gwrthod cyhoeddi ei Phapur Gwyn ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, mae Llywodraeth y DU wedi tynnu sylw at rai o'i huchelgeisiau yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Fel y tynnwyd sylw ato uchod, mae wedi nodi ei chynigion ar ddiogelu data a chydweithrediad diogelwch, y mae'r UE wedi ymateb iddynt.

Y tu allan i'r rhain, ar 22 Mai, cafwyd araith gan Philip Hammond, Canghellor y Trysorlys, **yng Nghinio Blynyddol Cydffederasiwn Diwydiant Prydain** lle rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf am safbwynt Llywodraeth y DU ar y negodiadau. Ailadroddodd awydd Llywodraeth y DU am y gwrthdaro lleiaf ar y ffin, gan gynnwys Iwerddon/Gogledd Iwerddon, ond nad yw'n cytuno bod angen aros yn yr undeb tollau er mwyn cyflawni hynny.

Amlinellodd hefyd fod y DU yn chwilio am fargen sy'n cynnwys:

- system gynhwysfawr o gydnabyddiaeth ar y ddwy ochr er mwyn sicrhau, fel nawr, mai dim ond mewn un wlad y bydd angen i gynhyrchion gael eu cymeradwyo i ddangos eu bod yn bodloni safonau rheoleiddio ar draws Ewrop;
- perthynas y DU ag asiantaethau'r UE, megis y rhai ar gyfer y diwydiant cemegion, y diwydiant fferyllol, a'r diwydiant awyrofod;

- cytundeb eang ar wasanaethau, gan gynnwys cydnabyddiaeth barhaus o gymwysterau proffesiynol, a fframwaith symudedd llafur sy'n galluogi teithio er mwyn darparu gwasanaethau i gleientiaid yn bersonol; a
- phartneriaeth bwrpasol ym maes gwasanaethau ariannol a fydd yn golygu y gellir darparu gwasanaethau ariannol trawsffiniol i'r ddau gyfeiriad.

Ar 23 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth y DU hefyd **fframwaith ar gyfer partneriaeth rhwng y DU a'r UE ym maes gwyddoniaeth, ymchwil ac arloesedd**, gan amlinellu ei gweledigaeth ar gyfer cytundeb pellgyrhaeddol â'r UE ym maes gwyddoniaeth ac arloesedd, Mae'r fframwaith yn nodi bod y DU yn barod i gynnig cyfraniad teg at gostau'r rhaglen ac i barchu cylch gwaith Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, lle y bo'n berthnasol, pan rydym yn cymryd rhan yn rhaglenni'r UE. Yn gyfnewid, mae'n ceisio'r canlynol:

> [...] appropriate level of influence on the shape of the programme. This should be greater than current non-EU precedents.

Fodd bynnag, ar 30 Mai, **adroddodd papur newydd y Guardian**:

> A draft copy of the so-called Horizon Europe document, seen by the Guardian, suggests that the UK is set to be offered less generous access than countries with associate status in the current programme, known as Horizon 2020, including Israel, Turkey, Albania and Ukraine.

Ar fater cysylltiedig, cyhoeddodd Llywodraeth y DU a **nodyn technegol ar gyfranogiad y DU yn Galileo** ar 24 Mai, gan dynnu sylw at ei hawydd i barhau i gymryd rhan yn natblygiad Galileo, System Llywio â Lloeren Fyd-eang yr UE.

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyhoeddi ei **Fframwaith ar gyfer y Bartneriaeth Economaidd rhwng y DU a'r UE** ar 24 Mai. Mae'r fframwaith yn esbonio y bydd gan y bartneriaeth dair egwyddor:

- eang – yn cwmpasu mwy o sectorau nag unrhyw gytundeb masnach rydd arall, gan gynnwys meysydd lle mae economïau a phobl y DU a'r UE yn gysylltiedig, megis gwasanaethau ariannol, ynni, trafnidiaeth a digidol;
- dwfn – dyfnder mynediad at y farchnad gilyddol, gan adlewyrchu y bydd gan y DU a'r UE yr un cyfreithiau a rheolau ar ddiwedd y cyfnod gweithredu; a
- chytbwys – gan gynnwys ymrwymiadau cyfatebol i sicrhau cystadleuaeth agored a theg, yn gymesur â lefel y mynediad at y farchnad, ac yn gyson ag ymrwymiadau'r DU ar Ogledd Iwerddon.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf **Fforwm Gweinidogol newydd y DU (Negodiadau'r UE)** yng Nghaeredin ar 24 Mai. Nodwyd y canlynol ar ôl y cyfarfod yn yr hysbysiad swyddogol:

> [...] two principal agenda items at the meeting were the White Paper on the Framework for the UK's Future Relationship with the EU, and the Ministerial Forum in Practice and Forward Plan.

Mae gan y fforwm gynrychiolwyr o'r DU a llywodraethau datganoledig, gyda Rebecca Evans AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio, yn cynrychioli Llywodraeth Cymru ar y diwrnod. Mewn **datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar yr un diwrnod**, esboniodd Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid:

> Gan adeiladu ar drafodaethau cychwynnol Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r Undeb Ewropeaidd) mae Fforwm Gweinidogion newydd wedi'i sefydlu i drafod y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i'r gweinyddiaethau datganoledig gyfrannu i'r broses o ddatblygu safbwynt negodi ar gyfer y DU... Rydym yn disgwyl y bydd y cyfarfod cyntaf yn canolbwyntio ar y safbwynt negodi eang yn hytrach nag ar faterion adrannol perthnasol.

Ar 30 Mai, datgelodd y Comisiwn Ewropeaidd **ei gynnig Erasmus ar gyfer y saith mlynedd nesaf**. **Cyhoeddodd y Comisiwn y bydd** rhaglen Erasmus fwy pwerus a fydd yn cyrraedd €30 biliwn dros y cyfnod. Mae hyn yn cyfateb i ddwbl yr arian ar gyfer y rhaglen. O ddiddordeb arbennig i Gymru a'r DU yw cynnig categori newydd ar gyfer cyfranogiad trydydd parti (nad yw'n rhan o'r UE), a fyddai'n galluogi'r DU i gymryd rhan yn y rhaglen. Mae'r Comisiwn yn cynnig bod y rhaglen yn agored i gyfranogiad trydydd gwledydd ar yr amod y deuir i gytundeb sy'n sicrhau cydbwysedd teg o ran cyfraniad a manteision cyfranogiad trydydd gwledydd. **Fel y mae Politico** yn adrodd, yn y bôn, mae hyn yn golygu y gallai'r DU dalu i gymryd rhan. **Roedd Erthygl 24 o'r system flaenorol** yn cyfyngu cyfranogiad yn rhaglen Erasmus i'r gwledydd sydd yn yr UE, yn ymgeiswyr i ymaelodi, yn aelodau o Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop neu a gwmpesir gan Bolisi Cymdogaeth Ewrop.

## Bod yn Barod ar gyfer Brexit

Ar 16 Mai, cafwyd araith gan Michael Grenfell, Cyfarwyddwr Gweithredol Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y DU **yn uwch-gynhadledd cyfraith cystadleuaeth yr UE**. Yn yr araith honno, canolbwyntiodd ar y pedair agwedd ar Brexit o ran yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd:

- Yr hyn y mae'n ei olygu i swyddogaethau a llwyth gwaith yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd;

- Pethau ymarferol – ariannu a pharatoi;
- Cwmpas ar gyfer dargyfeiriad y DU o gynsail cyfraith yr UE; a
- Goblygiadau ehangach.

Wrth wneud hynny, pwysleisiodd i Lywodraeth y DU, yn ei Datganiad Gwanwyn, ddyrannu £23.6 miliwn ychwanegol i'w chyllideb ar gyfer 2018-19, er mwyn ei galluogi i baratoi i'r DU adael yr UE, a'i bod yn bwriadu cynnal ymgyrch recriwtio sylweddol.

Ar 22 Mai, cyhoeddodd Comisiwn yr UE **sleid ar reolaethau tollau**. Mae'r sleid hon yn gwneud y canlynol:

> [...] highlights the checks and controls that need to be carried out on goods entering, transiting or leaving the customs territory of the European Union.

Byddai'r rhan fwyaf o'r gwiriadau hyn yn gymwys pe bai'r DU yn yr undeb tollau ai peidio. Mae Comisiwn yr UE hefyd wedi cyhoeddi hysbysiadau ychwanegol i'r rhanddeiliaid ar **orfodi hawliau eiddo deallusol** a rheolau'r UE **ar darddiad amgen nwyddau.**

Ar 23 Mai, rhoddodd Jon Thompson, pennaeth CThEM, **dystiolaeth i Bwyllgor Dethol Trysorlys Tŷ'r Cyffredin**. Yn y dystiolaeth honno, amcangyfrifodd y costau sy'n gysylltiedig â rhoi cynigion partneriaethau tollau Llywodraeth y DU ar waith. Mae'r model hynod syml o'r bartneriaeth tollau tua £17b i £20b, a'r amcangyfrif o'r costau sefydlu ar gyfer y bartneriaeth tollau newydd yw tua £700m. Amcangyfrifodd hefyd y byddai'r model hynod syml yn cymryd tair blynedd i'w weithredu o'r eiliad y gwnaed penderfyniad terfynol i'w ddilyn, ac y byddai'r model partneriaeth tollau yn cymryd pum mlynedd i'w weithredu.

Yn sgîl y newidiadau tebygol sy'n deillio o Brexit, gofynnodd Ysgrifennydd Parhaol yr Adran Drafnidiaeth **am gyfarwyddyd Gweinidogol gan Chris Grayling AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth**, am ganiatâd i wario:

> [...] £10m for DVSA to develop a new road haulage permit system to issue permits for UK hauliers to allow them to perform road haulage in the EU... [and] £15.4m for developing systems for managing a trailer registration system.

Cymeradwyodd yr Ysgrifennydd Gwladol y gwariant arfaethedig hwn a chyhoeddwyd y llythyrau ar 29 Mai.

## Deddfwriaeth y DU

Ar 16 Mai, derbynhiwyd Trydydd Darlleniad **Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)** yn Nhŷ'r Arglwyddi. **Gwnaed tua 200 o newidiadau** i'r Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi. Cyhoeddwyd **Nodiadau Esboniadol** ar y diwygiadau a wnaed gan Dŷ'r Arglwyddi.

Yn ystod Cyfnod Adrodd a Chyfnod Trydydd Darlleniad y Bil Ymadael yn Nhŷ'r Arglwyddi, collodd Llywodraeth y DU 15 o bleidleisiau i gyd, gan gynnwys gwelliant a gyflwynwyd yn ystod y Trydydd Darlleniad ynghylch cynnal a chadw egwyddorion a safonau amgylcheddol yr UE. Byddai'r **gwelliant** hwn, pe bai'n cael ei dderbyn yn Nhŷ'r Cyffredin, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gymryd camau i sicrhau nad yw ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r UE yn arwain at ddileu neu leihau hawliau, pwerau, rhwymedigaethau, cyfyngiadau, camau unioni a gweithdrefnau sy'n cyfrannu at ddiogelu a gwella'r amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol, o fewn chwe mis i'r diwrnod gadael, gyhoeddi cynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol i wneud dau beth:

- gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i gymhwyso egwyddorion amgylcheddol yr UE ar ôl Brexit, a
- sefydlu corff annibynnol er mwyn sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â'r gyfraith amgylcheddol.

Cyn cyhoeddi'r cynigion hyn ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, ymysg pethau eraill, ymgynghori â phob un o'r gweinyddiaethau datganoledig.

Ar ben hynny, derbyniwyd y gwelliannau technegol i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a gyflwynwyd gan yr Arglwydd Callanan ar ran Llywodraeth y DU, heb bleidlais yn ystod Trydydd Darlleniad Tŷ'r Arglwyddi.

Bydd y Bil Ymadael yn dychwelyd i Dŷ'r Cyffredin ar 12 Mehefin er mwyn trafod y newidiadau a wnaed gan Dŷ'r Arglwyddi.

Ar 25 Mai, cafodd **Deddf Cosbau ac Atal Gwyngalchu Arian 2018**, a ddechreuodd yn Nhŷ'r Arglwyddi, Gydsyniad Brenhinol. Mae'r Ddeddf yn golygu y gall Llywodraeth y DU wneud rheoliadau sancsiynau. Fel arall, o ganlyniad i Brexit a diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 trwy'r Bil Ymadael, ni fyddai dim pŵer yn neddfwriaeth y DU sy'n galluogi Llywodraeth y DU i weithredu a gosod sancsiynau er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau'r Cenhedloedd Unedig a rhwymedigaethau rhyngwladol eraill. Yn yr un modd, mae'r Ddeddf yn galluogi Llywodraeth y DU i wneud rheoliadau ynghylch gwyngalchu arian a chyllido terfysgol oherwydd y bydd deddfwriaeth y DU sy'n darparu'r fath bŵer yn dod i ben ar ôl Brexit.

Nid yw'r dyddiadau ar gyfer trafod y **Bil Trethiant (Masnach Drawsffiniol)** a'r **Bil Masnach** yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin wedi'u cyhoeddi eto. Dechreuodd y ddau Fil yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Tachwedd 2017 a chwblhaodd y ddau Fil y Cyfnod Pwyllgor heb eu diwygio ar 1 Chwefror. Fodd bynnag, mae nifer o welliannau wedi'u cyflwyno i'r ddau Fil cyn y Cyfnod Adrodd, gan gynnwys gwelliannau parthed cyfranogiad mewn undeb tollau gyda'r UE ar ôl Brexit.

O ran y Bil Masnach, rhai o'r gwelliannau sydd â chefnogaeth drawsbleidiol ac sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yw:

- cymryd yr holl gamau angenrheidiol i weithredu cytundeb masnach ryngwladol sy'n galluogi'r DU i gymryd rhan, ar ôl y diwrnod ymadael, mewn undeb tollau gyda'r UE ar yr un telerau â'r hyn a oedd yn bodoli cyn y diwrnod ymadael (Gwelliant NC1);
- sicrhau bod yr holl gytundebau masnach rydd newydd yn ddarostyngedig i drefniadau craffu a chaniatâd seneddol (Gwelliant NC3);
- sicrhau bod angen cydsyniad Gweinidogion datganoledig ar reoliadau a wneir gan Weinidogion y DU sydd o fewn cymhwysedd datganoledig (Gwelliant NC4); a
- gweithdrefn seneddol newydd ar gyfer craffu ar reoliadau a wneir o dan y Bil (Gwelliant NC6).

O ran y Bil Trethiant (Masnach Drawsffiniol), mae rhai o'r **gwelliannau** sydd â chefnogaeth drawsbleidiol ac sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn cynnwys cymal newydd i gadarnhau'r canlynol:

- amcan negodi i gynnal cyfranogiad y DU yn Undeb Tollau yr UE, sy'n darparu i Rannau 1 a 2 o'r Ddeddf ddod i ben os cyflawnir yr amcan hwnnw ac mae'n gwneud gorffen trefniadau cadw dyletswyddau tollau'r UE yn amodol ar adroddiad sy'n nodi nad yw'r amcan wedi'i fodloni (Gwelliant NC1);
- amcan negodi i sicrhau cytundeb sy'n caniatáu i'r DU gael mynediad heb dariff i'r UE, gan gynnwys y potensial i gymryd rhan mewn undeb tollau (NC11); a
- gweithdrefn seneddol well i rai rheoliadau a wneir o dan y Bil (NC13).

## Datblygiadau'r Cynulliad ar ddeddfwriaeth Brexit

Ar 11 Mai, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol **at Ysgrifennydd Gwladol Cymru** mewn perthynas â'r dull sifftio a fydd yn gymwys i reoliadau a wneir o dan y Bil Ymadael. Ar hyn o bryd, mae'r Bil Ymadael yn rhoi 10 diwrnod eistedd i bwyllgorau Senedd y DU gynnal sifft ac yn rhoi 14 o ddiwrnodau calendr i'r Cynulliad (ac eithrio unrhyw amser y mae'r Cynulliad wedi'i ddiddymu neu mewn toriad am fwy na phedwar diwrnod).

Mae'r Cadeirydd hefyd wedi holi a yw Llywodraeth y DU yn bwriadu adlewyrchu'r darpariaethau sy'n gwneud penderfyniad y pwyllgor sifftio'n benderfyniad sy'n rhwymo Gweinidogion y Cynulliad. Mae hyn yn dilyn derbyn gwelliant yr Arglwydd Lisvane gan Dŷ'r Arglwyddi yn ystod Cyfnod Adrodd y Bil Ymadael, sy'n darparu bod penderfyniadau'n rhwymo Gweinidogion ac eithrio lle mae Tŷ Seneddol yn penderfynu'n wahanol. Cafodd argymhelliad tebyg iawn ei gefnogi'n unfrydol gan y Cynulliad ar 7 Mawrth yn dilyn adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch **Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).**

Ar 15 Mai, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol **adroddiadau ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol o ran y Bil.** Ni wnaeth y naill Bwyllgor na'r llall argymhelliad o ran cydsynio i ddarpariaethau'r Bil.

Ar 15 Mai, **ysgrifennodd Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad at Glerc Tŷ'r Cyffredin** gan ddweud i'r **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** ar y darpariaethau sy'n deillio o'r Bil Ymadael gael ei drafod a'i gymeradwyo gan y Cynulliad **yn y Cyfarfod Llawn** y diwrnod hwnnw.

Ar 16 Mai, cafodd y Llywydd **lythyr** o Swyddfa Llywydd Senedd yr Alban i'r Cynulliad yn nodi bod Senedd yr Alban wedi penderfynu peidio â chydsynio i'r Bil pan drafodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 15 Mai.

Yn dilyn y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y Bil Ymadael, nododd y **Cytundeb Rhynglywodraethol** y byddai camau'n cael eu cymryd i dynnu'r cyfeiriad yn ôl ac i ddiddymu Bil Parhad Cymru. Yn ystod y cyfnod hysbysu pedair wythnos, roedd y Twrnai Cyffredinol wedi cyfeirio'r **Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)** i'r Goruchaf Lys.

Yn dilyn penderfyniad y Cynulliad i gymeradwyo'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil, ar 25 Mai, **Ysgrifennodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru at y Llywydd** gan gadarnhau bod Twrnai Cyffredinol Cymru a Lloegr wedi tynnu'r cyfeiriad at y Goruchaf Lys yn ôl. Nododd y llythyr hefyd nad oedd yn

bwriadu gwneud gorchymyn o dan adran 114 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a fyddai'n atal y Bil rhag cael ei gyflwyno ar gyfer Cydsyniad Brenhinol.

Cafodd y Bil **Gydsyniad Brenhinol** ar 6 Mehefin. Bydd Gweinidogion Cymru bellach yn gallu defnyddio eu pwerau gweithredol o dan adran 22 o'r Ddeddf i basio rheoliadau sy'n darparu ar gyfer diddymu'r Ddeddf.

## Dogfennau a Phapurau Sefyllfa

Ers i'r adroddiad monitro diwethaf gael ei gyhoeddi, mae'r UE wedi cyhoeddi ei gyfarwyddebau negodi ar y cyfnod pontio, papur sefyllfa ar gymalau yr awgrymir eu cynnwys yn y Cytundeb Ymadael a chyfres o gyflwyniadau a wnaed fel rhan o'r trafodaethau mewnol anffurfiol ar y berthynas yn y dyfodol. Mae'r rhain wedi'u hychwanegu at y tabl isod.

Tabl 1 Papurau Sefyllfa a dogfennau allweddol a gyhoeddwyd gan yr UE a’r DU

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| **Essential Principles on Citizens' Rights**<br><br>29 Mai 2017 i 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd<br><br>12 Mehefin i’r DU | Yn amlinellu sefyllfa’r Undeb Ewropeaidd ar hawliau dinasyddion y DU yn yr Undeb Ewropeaidd a hawliau dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yn y DU. | **Diogelu sefyllfa dinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU a gwladolion y DU sy'n byw yn yr UE: Papur Sefyllfa.**<br><br>26 Mehefin 2017 | Yn amlinellu sefyllfa’r DU ar yr hawliau y dylai dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd eu cael yn y DU a’r hawliau y dylai gwladolion y DU eu cael yn yr Undeb Ewropeaidd. Gweler **erthygl blog** y Gwasanaeth Ymchwil am ragor o fanylion. |
| **Essential Principles on the financial settlement**<br><br>29 Mai 2017 i 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd<br><br>12 Mehefin i’r DU | Yn amlinellu cynigion yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer methodoleg y dylid cytuno arni yn ystod negodiadau Cam 1 ar sut y dylid cyfrifo rhwymedigaethau ariannol y DU i’r Undeb Ewropeaidd. Mae Atodiad 1 yn cynnwys rhestr o asiantaethau, cyrff ac offerynnau ariannol i’w cynnwys yn y fethodoleg. | Dim. | Mae Ysgrifennydd Gwladol y DU ar gyfer DEXEU **wedi amlinellu** y bydd y DU yn cwestiynu sefyllfa’r Undeb Ewropeaidd yn hytrach nag amlinellu ei sefyllfa ei hun. |
| **Nuclear material and safeguard equipment (Euratom)**<br><br>23 Mehefin 2017 i 27 gwlad yr | Yn amlinellu cynigion yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer trin a throsglwyddo perchnogaeth deunyddiau ymholltog arbennig. Mae’n | **Nuclear material and safeguards issues.**<br><br>13 Gorffennaf 2017 | Mae Llywodraeth y DU yn nodi chwe egwyddor y mae am i’r negodiadau ar y materion hyn eu cyflawni. Mae’n cwmpasu rhai meysydd ychwanegol at y |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| Undeb Ewropeaidd<br><br>13 Gorffennaf i'r DU | cwmpasu llai o feysydd nag a gynigiwyd gan y DU mewn papur cyfatebol. | | rhai a gwmpaswyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys contractau presennol am gyflenwi deunydd niwclear, gweddillion tanwydd a gwastraff ymbelydrol. Mae'r DU yn nodi y dylai gweddillion tanwydd a gwastraff ymbelydrol barhau i fod yn gyfrifoldeb y Wladwriaeth lle y cawsant eu cynhyrchu ar ôl ymadael. |
| **Judicial cooperation in civil and commercial matters**<br><br>29 Mehefin 2017 i 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd<br><br>13 Gorffennaf i'r DU | Yn amlinellu cynigion ar gyfer rhoi gweithdrefnau ar waith ar gyfer achosion sy'n aros am ddedfryd pan fydd y DU yn ymadael. | **Providing a cross-border civil judicial framework: a future partnership paper**<br><br>22 Awst 2017 | Mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei sefyllfa ar gyfer y gweithdrefnau a ddylai fod yn berthnasol i achosion sy'n aros am ddedfryd pan fydd y DU yn ymadael a chynigion ar gyfer cydweithrediad parhaus yn y maes hwn mewn un papur. Mae'r papur yn nodi bod Atodiad A o'r papur yn ymateb yn uniongyrchol i bapur yr Undeb Ewropeaidd ac yn nodi blaenoriaethau |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| | | | Llywodraeth y DU os na chytunir ar bartneriaeth ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n nodi nad dim cytundeb ar gydweithredu yn y dyfodol yw ei ddewis. Mae'r papur yn nodi y bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn dod ag awdurdodaeth uniongyrchol Llys Cyfiawnder Ewrop i ben ond y bydd y DU yn ceisio dod i gytundeb â'r Undeb Ewropeaidd a fydd yn caniatáu cydweithredu barnwrol sifil trawsffiniol agos a chynhwysfawr. |
| **Ongoing Police and Judicial cooperation in criminal matters**<br><br>29 Mehefin 2017 i 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd<br><br>13 Gorffennaf i'r DU | Cynigion ar gyfer y gweithdrefnau a fydd yn cymhwyso gweithdrefnau parhaus megis gorchmynion ymchwilio Ewropeaidd a gweithdrefnau Gwarantau Arestio Ewropeaidd ar y dyddiad ymadael a sut y bydd y wybodaeth a geir trwy'r gweithdrefnau hyn yn cael ei thrin. | **Diogelwch, gorfodi'r gyfraith a chyfiawnder troseddol. Future Partnership Paper**<br><br>18 Medi 2017 | Mae Atodiad A o'r papur yn ymateb yn uniongyrchol i'r materion a godwyd gan yr Undeb Ewropeaidd yn ei bapur yntau. Fodd bynnag, mae'r DU yn argymell y dylid cynnal trafodaethau ar faterion troseddol a fydd yn codi yn sgîl ymadael yng nghyd-destun trafodaethau ar bartneriaeth yn y dyfodol. Mae'r papur yn galw am |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| | | | berthynas ddyfnach a chydweithrediad ar faterion sy'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith a chyfiawnder troseddol rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd na'r hyn sydd gan yr Undeb Ewropeaidd gyda gwledydd trydydd parti ar hyn o bryd. Mae'n nodi y dylid ei ddarllen ar y cyd â phapurau eraill ar y bartneriaeth yn y dyfodol sy'n ymwneud â diogelwch a diogelu data. |
| **Ongoing Union and Judicial Procedures**<br><br>29 Mehefin 2017 i 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd<br><br>13 Gorffennaf i'r DU | Yn amlinellu'r cynigion ar gyfer rhoi gweithdrefnau ar waith ar gyfer achosion gerbron Llys Cyfiawnder Ewrop sy'n ymwneud â'r DU neu breswylwyr/unigolion cyfreithlon y DU ar adeg ymadael a chynigion ar gyfer gweithdrefnau gweinyddol parhaus o ran sefydliadau'r Undeb, cyrff, swyddfeydd ac asiantaethau sy'n ymwneud â'r DU neu breswylwyr/unigolion | **Ongoing union judicial and administrative proceedings: Papur Sefyllfa.**<br><br>**13 Gorffennaf 2017** | Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod y bydd rhai achosion yn aros am ddedfryd pan fydd yn ymadael a ddylai barhau i ddod o fewn awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop ac mae'n ceisio cytundeb ar feini prawf ynghylch y diffiniad o 'aros am ddedfryd'. Mae hefyd yn ceisio eglurhad o rôl Adfocad Cyffredinol y DU a chyfreithwyr y DU yn y Llys am gyfnod pontio tra bo achosion |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| | cyfreithlon y DU. Cynigiodd yr UE y dylai Llys Cyfiawnder Ewrop gadw rhywfaint o gymhwysedd i ddyfarnu mewn achosion a ddygir yn erbyn y DU ar ôl iddi ymadael sy'n ymwneud â materion a ddigwyddodd pan oedd y DU yn dal i fod yn Aelod-wladwriaeth. | | yn dal i aros am ddedfryd. Nid yw'n cytuno y dylai Llys Cyfiawnder Ewrop gadw rhywfaint o gymhwysedd dros achosion a ddygwyd ar ôl y dyddiad ymadael sy'n ymwneud â phethau a ddigwyddodd cyn y dyddiad ymadael. |
| **Issues relating to the functioning of EU Institutions, Agencies and Bodies**<br><br>29 Mehefin 2017 i 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd<br><br>13 Gorffennaf 2017 i'r DU | Mae'r papur yn nodi sefyllfa'r UE ar ba amddiffyniadau ac imiwneddau a fydd yn berthnasol i sefydliadau ac asiantaethau'r Undeb Ewropeaidd yn y DU ar ôl iddi ymadael wrth i weithgarwch cyrff yr Undeb Ewropeaidd yn y DU ddirwyn i ben. | **Privileges and Immunities**<br><br>**13 Gorffennaf 2017** | Mae papur sefyllfa'r DU yn cytuno y dylid cynnig amddiffyniadau ac imiwneddau i eiddo, asedau a gweithrediadau'r Undeb Ewropeaidd yn y DU am gyfnod pontio ar ôl iddi ymadael. Mae negodwyr ar y ddwy ochr wedi nodi eu bod yn agos at ddod i gytundeb ar y mater hwn. |
| **Llywodraethu**<br><br>29 Mehefin 2017 i 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd | Mae'r papur yn amlinellu cynigion yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer mecanwaith datrys anghydfodau ar gyfer y Cytundeb Ymadael, gan | **Enforcement and Dispute resolution: Future Partnership Paper**<br><br>**23 Awst 2017** | Mae'r papur yn cynnwys cynigion ar gyfer mecanwaith gorfodi a datrys anghydfodau newydd ar gyfer y Cytundeb Ymadael ac unrhyw bartneriaeth yn y dyfodol. |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| 13 Gorffennaf 2017 i'r DU | gynnwys sefydlu Cydbwyllgor i ystyried anghydfodau. Dywed y dylai'r Cydbwyllgor gyfeirio achosion at Lys Cyfiawnder Ewrop am benderfyniadau rhwymol pan na ellir dod i gytundeb yn y Pwyllgor. Mae'n nodi y dylai'r Comisiwn Ewropeaidd gadw pwerau llawn ar gyfer monitro a gweithredu'r cytundeb ar hawliau dinasyddion. | | Mae'r papur yn nodi y bydd angen mecanwaith newydd gan y bydd awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop yn dod i ben. Safbwynt y DU yw, pan fo'r Cytundeb Ymadael neu unrhyw drefniadau partneriaeth yn y dyfodol yn arwain at hawliau neu rwymedigaethau ar gyfer unigolion a busnesau sy'n gweithredu yn y DU, bydd y rhain yn dod i rym yng nghyfraith y DU ac yn cael eu gorfodi gan lysoedd y DU. Mae'r papur sefyllfa yn dadlau nad oes cynsail na gorfodaeth yng nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd na'r DU sy'n datgan bod yn rhaid i brosesau gorfodi neu ddatrys anghydfodau ddod o dan awdurdodaeth uniongyrchol Llys Cyfiawnder Ewrop. |
| **Goods placed on the market under Union law before the withdrawal date** | Mae'r papur yn nodi'r cynigion ar gyfer y gweithdrefnau a ddylai fod yn berthnasol i nwyddau sy'n cydymffurfio â | **Continuity in the availability of goods for the EU and the UK: Papur Sefyllfa** | Mae Llywodraeth y DU yn dweud y dylid datrys y mater hwn o ran unrhyw bartneriaeth yn y dyfodol. |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| 29 Mehefin 2017 i'r UE<br><br>13 Gorffennaf 2017 i'r DU | holl reolau'r Undeb ac yn cael eu rhoi ar y farchnad i'w gwerthu cyn y dyddiad ymadael ond nad ydynt wedi'u gwerthu erbyn y dyddiad ymadael. | **21 Awst 2017** | Mae'r DU yn gofyn am drafod ymhellach ystyr "rhoi ar y farchnad" ac yn awgrymu y dylai gynnwys gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chyflenwi nwyddau. |
| **Customs related matters needed for an orderly withdrawal of the UK from the Union**<br><br>7 Medi 2017 i 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd | Cynigion ar gyfer y gweithdrefnau tollau a ddylai fod yn berthnasol i nwyddau y dechreuodd eu symudiad cyn y dyddiad ymadael ond yn dod i ben ar y dyddiad hwnnw neu ar ôl hynny. | **Continuity in the availability of goods for the EU and the UK: Papur Sefyllfa**<br><br>**21 Awst 2017**<br><br>**Future customs arrangements: Future Partnership Paper**<br><br>**15 Awst 2017** | Mae papur sefyllfa'r DU ar barhad argaeledd nwyddau'n cydnabod y bydd angen mynd i'r afael â materion tollau sy'n ymwneud â nwyddau sydd ar y farchnad ar adeg ymadael ond mae'n gwneud hynny gan gyfeirio at ei gynigion ar gyfer perthynas tollau yn y dyfodol ac yn nodi y dylid mynd i'r afael â'r mater trwy gyfeirio at bartneriaeth ar gyfer y dyfodol. |
| **Guiding Principles transmitted to EU 27 for the Dialogue on Ireland/Northern Ireland.**<br><br>7 Medi i 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd | Egwyddorion sy'n sail i drafodaethau am y berthynas rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon. Ni chynigir atebion ar gyfer ffin Iwerddon ac mae'r papur yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y DU i gynnig | **Gogledd Iwerddon ac Iwerddon: Papur Sefyllfa**<br><br>16 Awst 2017 | Mae'r papur sefyllfa yn nodi y dylai'r Ardal Deithio Gyffredin rhwng Iwerddon a'r DU barhau, y dylid gwneud cynnydd cyflym ar y mater ac na fydd parhad yr Ardal Deithio Gyffredin yn effeithio ar hawliau dinasyddion yr UE |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| | atebion. | | yn Iwerddon. Nid yw'r papur yn cynnig opsiynau penodol ar gyfer y ffiniau tir ond mae'n nodi egwyddorion i brofi modelau yn eu herbyn. Mae'n croesgyfeirio at gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer trefniadau tollau yn y dyfodol. Mae'n nodi na ddylai unrhyw ateb y cytunir arno ei gwneud yn ofynnol i gael ffiniau tollau newydd rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr. Mae'n gwneud cynigion penodol ar gynhyrchion bwyd-amaeth. Mae'n awgrymu y dylid cael cytundeb i barhau â chyllid PEACE i Ogledd Iwerddon a siroedd ffiniol Iwerddon a hynny ar wahân i'r trafodaethau ehangach ar y setliad ariannol. |
| **Caffael Cyhoeddus**<br><br>7 Medi i 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd | Cynigion ar gyfer y rheolau a'r gweithdrefnau ar gaffael cyhoeddus a ddylai fod yn berthnasol i weithdrefnau caffael a chontractau sy'n | Dim | |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| | parhau ar y dyddiad ymadael. | | |
| **Intellectual Property Rights (including geographical indications)**<br><br>7 Medi 2017 i 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd | Cynigion ar gyfer parhau i ddiogelu hawliau eiddo deallusol y cytunwyd arnynt cyn y dyddiad ymadael, gan gynnwys gwarchod enwau bwyd gwarchodedig. Mae'r Undeb Ewropeaidd yn awgrymu y bydd angen i'r ddeddfwriaeth ddomestig newydd ar enwau bwyd gwarchodedig fod ar waith yn y DU cyn y dyddiad ymadael. | Dim | |
| **Use of Data and Protection of Information Obtained or Processed before the Withdrawal Date**<br><br>7 Medi i 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd | Cynigion ynglŷn â'r rheolau a'r amddiffyniadau cyfatebol a ddylai fod yn berthnasol i ddata a gedwir neu a brosesir yn y DU a'r Undeb Ewropeaidd ar ôl y dyddiad ymadael. | **Confidentiality and access to documents: Papur Sefyllfa**<br><br>**21 Awst 2017** | Mae'r papur yn nodi mai'r nod ddylai fod i'r Cytundeb Ymadael sicrhau bod gan y DU a'r Undeb Ewropeaiddd amddiffyniadau a rhwymedigaethau cyfatebol ar wybodaeth a mynediad at ddogfennau fel sy'n wir ar hyn o bryd o dan ddeddfwriaeth bresennol yr Undeb Ewropeaidd. |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| Dim | | **Future Customs Arrangements: Future partnership paper**<br><br>15 Awst 2017 | Mae'r papur sefyllfa yn cynnig dau opsiwn posibl ar gyfer perthynas tollau yn y dyfodol. Trefniad tollau hynod syml rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaid neu bartneriaeth tollau newydd â'r Undeb Ewropeaidd lle byddai'r DU yn cysoni ei ffin â'r Undeb Ewropeaidd fel y byddai'n cael gwared ar yr angen am y ffin tollau rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd. Byddai'r DU yn gadael yr undeb tollau ac yn gallu negodi ei chytundebau masnach ei hun o dan y ddau opsiwn.<br><br>O dan yr ail opsiwn, mae'r papur sefyllfa yn cynnig y byddai'r DU yn adlewyrchu gofynion yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer nwyddau o weddill y byd os mai'r Undeb Ewropeaidd yw'r cyrchfan terfynol. Mae'n nodi y byddai hyn yn ddigynsail ac y gallai fod yn heriol i'w weithredu ond mae'n |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| | | | dymuno ei drafod â'r Undeb Ewropeaidd.<br><br>Mae'r papur yn cynnig model cyfyngedig o ran amser ar gyfer cysylltiad agos ag undeb Tollau'r Undeb Ewropeaidd am gyfnod pontio er mwyn osgoi sefyllfa ymyl clogwyn i fusnesau ac unigolion ar y ddwy ochr. |
| Dim | | **The exchange and protection of personal data: Future partnership paper**<br><br>24 Awst 2017 | Yn amlinellu cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer model newydd o gyfnewid a diogelu data personol rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd yn seiliedig ar ddull cyfredol yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n awgrymu y gallai Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth barhau i gydweithio â rheoleiddwyr yr Undeb Ewropeaidd. |
| Dim | | **Collaboration on Science and innovation: Future partnership paper** | Mae'n amlinellu cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer cytundeb gwyddoniaeth ac arloesedd â'r UE. Mae'n nodi y |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| | | 6 Medi 2017 | dylai'r cytundeb fod yn eang a galluogi meysydd ymchwil newydd. Mae'n nodi y bydd angen negodi mynediad parhaus y DU at raglenni ymchwil ac arloesedd yr Undeb Ewropeaidd, ynghyd â maint unrhyw gyfraniad ariannol y byddai'n rhaid i'r DU ei wneud i gymryd rhan ynddynt. Mae'n nodi y byddai angen cydbwyso'r cyfraniad hwn yn erbyn blaenoriaethau gwariant eraill Llywodraeth y DU. Cyfeirir at gyfranogiad Prifysgolion Cymru mewn rhaglenni a rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes. |
| Dim | | **Foreign Policy, defence and development: Future partnership paper**<br><br>12 Medi 2017 | Mae'r papur yn cynnig partneriaeth yn y dyfodol â'r Undeb Ewropeaidd ar ddiogelwch ac amddiffyn sy'n ehangach nag unrhyw gytundeb sydd gan yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd â gwlad drydydd parti. Mae'n nodi'r meysydd lle mae cydweithrediad ar amddiffyn, |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| | | | diogelwch a datblygiad rhyngwladol ar hyn o bryd. |
| Dim | | **Customs Bill White Paper: legislating for UK's future customs, VAT and excise regimes**<br><br>9 Hydref 2017 | Mae'r **Papur Gwyn ar y Bil Tollau** yn nodi cynigion cychwynnol Llywodraeth y DU ar gyfer system annibynnol ar gyfer tollau tramor, TAW a thollau cartref ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys cynigion ar gyfer senario wrth gefn os na ddeuir i gytundeb â'r Undeb Ewropeaidd ar berthynas fasnachu ar gyfer y dyfodol. |
| Dim | | **Preparing for our future UK trade policy**<br><br>9 Hydref 2017 | Mae'r **papur gwyn ar y polisi masnach** yn nodi'r safbwyntiau a ffefrir gan Lywodraeth y DU ar gyfer polisi masnach newydd ac yn nodi pa ddeddfwriaeth y bydd ei hangen er mwyn gweithredu'r polisi hwnnw. Mae'r papur yn nodi pum blaenoriaeth ar gyfer polisi masnachu newydd. |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| **Casgliadau'r Cyngor Ewropeaidd** ar y cynnydd a wnaed yn y negodiadau - 20 Hydref | Daeth y Cyngor i'r casgliad na wnaed digon o gynnydd yn y trafodaethau ar y Cytundeb Ymadael i ddechrau negodiadau ar y berthynas yn y dyfodol. Rhoddodd fanylion o ran lle y mae angen rhagor o gynnydd. Nododd hefyd y byddai paratoadau mewnol rhwng y 27 Aelod-wladwriaeth sy'n weddill ar gyfer trafodaethau ar berthynas fasnach yn y dyfodol yn dechrau. | Dim | |
| Dim | | **Sanctions and Anti-Money Laundering Bill**<br><br>19 Hydref | Ystyrir bod y Bil yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y caiff y DU weithredu cyfundrefn sancsiynau ryngwladol yn dilyn ei hymadawiad â'r UE. |
| Dim | | **Technical Note: citizen's rights administrative procedures in the UK**<br><br>7 Tachwedd | Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ragor o fanylion ynghylch sut y bydd y system yn gweithio i ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd wneud cais am breswyliaeth barhaol |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| | | | yn y DU. Anfonwyd hwn fel papur technegol at y Comisiwn Ewropeaidd. |
| Dim | | **Trade Bill 2018**<br><br>7 Tachwedd | Mae'r Bil yn rhoi pwerau i'r gweinidogion wneud newidiadau i gyfraith ddomestig y DU i weithredu Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael y Llywodraeth, a newidiadau angenrheidiol os bydd y DU yn dyblygu rhai o gytundebau presennol yr UE â gwledydd trydydd parti. Mae hefyd yn rhoi darpariaeth i sefydlu Awdurdod Rhwymedïau Masnach newydd ac mae'n rhoi data newydd i CThEM a phwerau a dyletswyddau mewn perthynas ag allforio a masnach. |
| **Adroddiad ar y Cyd** gan negodwyr yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth y DU ar gynnydd yn ystod Cam 1 negodiadau o dan EUU Erthygl 50 ar ymadawiad | Daeth yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth y DU i gytundeb mewn egwyddor yn y meysydd dan ystyriaeth yn ystod cam cyntaf y negodiadau, gan alluogi | **Adroddiad ar y Cyd**<br><br>8 Rhagfyr 2017 | |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| trefnus y DU â'r UE<br><br>8 Rhagfyr 2017 | trafodaethau i symud i'r cam nesaf. Mae'r adroddiad yn nodi'r sefyllfa y cytunwyd arni ar amddiffyn hawliau dinasyddion yr Undeb yn y DU a dinasyddion y DU yn yr Undeb; y fframwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r amgylchiadau unigryw yng Ngogledd Iwerddon; a'r setliad ariannol. | | |
| **Neges gan y Comisiwn i'r Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50)** ar y sefyllfa o ran cynnydd y negodiadau â'r DU o dan Erthygl 50 o'r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd<br><br>8 Rhagfyr 2017 | Yn seiliedig ar yr Adroddiad ar y Cyd gan negodwyr yr UE a Llywodraeth y DU, argymhellodd y Comisiwn y dylai'r Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50) ddod i'r casgliad bod cynnydd digonol wedi'i wneud yng ngham cyntaf y negodiadau. | | |
| Dim | | **Prime Minister's Commitments to Northern Ireland**<br><br>8 Rhagfyr 2017 | Nododd y Prif Weinidog Theresa May chwe ymrwymiad allweddol i Ogledd Iwerddon a oedd yn ei harwain yn y negodiadau â'r UE. |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| **Canllawiau'r Cyngor Ewropeaidd**<br><br>15 Rhagfyr 2017 | Yn dilyn y penderfyniad bod digon o gynnydd wedi'i wneud, cyhoeddodd y Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50) ganllawiau drafft i symud i ail gam y negodiadau, pan drafodir cyfnod pontio a'r fframwaith ar gyfer y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| **Supplementary negotiating directives**<br><br>20 Rhagfyr 2017 | Cyfarwyddebau atodol ar gyfer negodi cytundeb â'r DU sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer ei hymadawiad â'r UE. | Dim | |
| **Slides on Fisheries**<br><br>17 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar bysgodfeydd i lywio'r trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| **Slides on Aviation**<br><br>17 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar wasanaethau i lywio'r trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| Slides on Governance | Cyflwyniad ar lywodraethu i | Dim | |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| 19 Ionawr 2018 | lywio'r trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | | |
| **Slides on Security, Defence and Foreign Policy**<br><br>24 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar ddiogelwch, amddiffyn a pholisi tramor i lywio'r trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| **Slides on Police and Judicial Cooperation in criminal matters**<br><br>24 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar yr heddlu a chydweithrediad barnwrol i lywio'r trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| **Council (Article 50) negotiating directives on the transition period**<br><br>29 Ionawr 2018 | Cyfarwyddebau gan y Cyngor Ewropeaidd sy'n nodi'r canllawiau i negodwr yr Undeb ar gyfnod pontio gyda'r DU | Dim | |
| **Slides on a Level Playing Field**<br><br>31 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar sicrhau amodau teg a chyfartal i lywio'r trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| **Slides on Services**<br><br>6 Chwefror 2018 | Cyflwyniad ar wasanaethau i lywio'r trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch perthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| **Slides on International Agreements and Trade Policy**<br><br>6 Chwefror 2018 | Cyflwyniad ar gytundebau rhyngwladol a pholisi masnach i lywio'r trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch perthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| **Position Paper on Transitional Arrangements in the Withdrawal Agreement**<br><br>7 Chwefror 2018 | Papur sy'n amlinellu'r testun cyfreithiol posibl ar y cyfnod pontio i'w gynnwys yn y Cytundeb Ymadael. | Ymateb i'r Papur Sefyllfa ar Drefniadau Pontio yn y Cytundeb Ymadael<br><br>21 Chwefror 2018. | Ymateb i welliannau a awgrymir i'r papur sefyllfa a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd. |
| Dim. | | **Nodyn technegol ar gytundebau rhyngwladol**<br><br>8 Chwefror 2018 | Mae'r nodyn technegol hwn yn amlinellu rhagor o wybodaeth am ddull y DU o weithredu cytundebau rhyngwladol yn ystod y cyfnod gweithredu. |
| **Slides on Transport** | Cyflwyniad ar drafnidiaeth i lywio'r trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch perthynas yn y dyfodol. | Dim | |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| 21 Chwefror 2018 | | | |
| **Slides on Mobility**<br><br>21 Chwefror 2018 | Cyflwyniad ar symudedd i lywio'r trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch perthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| **Slides on regulatory issues**<br><br>**21 Chwefror 2018** | Cyflwyniad ar faterion rheoleiddio i lywio'r trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch perthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| **Brexit preparedness document rail transport**<br><br>27 Chwefror 2018 | Gwybodaeth i ddinasyddion a busnesau am oblygiadau ymadawiad y DU â'r UE ar drafnidiaeth rheilffyrdd. | Dim | |
| **Brexit preparedness document consumer protection and passenger rights**<br><br>27 Chwefror 2018 | Gwybodaeth i ddinasyddion a busnesau am oblygiadau ymadawiad y DU â'r UE ar ddiogelwch defnyddwyr a hawliau teithwyr. | Dim | |
| **Brexit preparedness document animal health and welfare** | Gwybodaeth i ddinasyddion a busnesau am oblygiadau ymadawiad y DU â'r UE ar iechyd a lles anifeiliaid. | Dim | |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| 27 Chwefror 2018 | | | |
| **Brexit preparedness document maritime transport**<br><br>27 Chwefror 2018 | Gwybodaeth i ddinasyddion a busnesau am oblygiadau ymadawiad y DU â'r UE ar drafnidiaeth forol. | Dim | |
| **Draft legal text on the Withdrawal Agreement**<br><br>28 Chwefror 2018 | Erthyglau drafft a chymalau ar gyfer testun cyfreithiol i weithredu'r cytundeb y deuir iddo rhwng yr UE a'r DU ar Ymadael. | Dim | |
| **European Council draft negotiation guidelines on a framework for a future partnership**<br><br>7 Mawrth 2018 | Canllawiau a awgrymir gan y Cyngor i'r Comisiwn ar gytuno ar fframwaith ar gyfer partneriaeth yn y dyfodol rhwng yr UE a'r DU. | Dim | |
| Dim | | **Dadansoddiad o fframweithiau**<br><br>9 Mawrth 2018 | Dadansoddiad o'r mannau lle mae cyfraith yr UE yn gorgyffwrdd â chymhwysedd datganoledig yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| Dim | | **Cytundeb Ymadael Drafft** 19 Mawrth 2018 | Mae'r Cytundeb Ymadael drafft, dyddiedig 19 Mawrth 2018 yn cynnwys testun cyfreithiol y cytunwyd arno o ran y cyfnod gweithredu, hawliau dinasyddion, a'r setliad ariannol, yn ogystal â nifer sylweddol o erthyglau eraill. Nod timau negodi'r DU a'r UE yw cwblhau'r Cytundeb Ymadael yn gyfan gwbl erbyn mis Hydref. |
| **Canllawiau'r Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50) ar y fframwaith ar gyfer perthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol**<br><br>23 Mawrth 2018 | Bydd y canllawiau hyn yn gweithredu fel mandad i negodwr yr UE ddechrau trafod y fframwaith ar gyfer y berthynas yn y dyfodol, gyda'r nod o ddod i ddealltwriaeth gyffredinol. Adlewyrchir y ddealltwriaeth honno mewn datganiad gwleidyddol sy'n cyd-fynd â'r Cytundeb Ymadael ac y cyfeirir ati ynddo. | **Llythyr y Prif Weinidog at Fusnesau'r DU**<br><br>23 Mawrth 2018 | Esbonio elfennau sylweddol y cyfnod pontio. |
| **Hysbysiad i'r rhanddeiliaid mewn perthynas â'r canlynol:** y farchnad ynni | | **Intellectual Property and Brexit Factsheet** | Taflen ffeithiau diweddaru ar ddyfodol cyfreithiau eiddo deallusol yn dilyn y penderfyniad y bydd y DU yn |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| fewnol, tystysgrifau amddiffyn ar gyfer cynhyrchion diogelu meddyginiaethol a phlanhigion, rheolau ym maes sefydliadau ar gyfer darpariaeth ymddeoliad galwedigaethol.<br><br>27 Ebrill 2018 | | 26 Ebrill 2018 | gadael yr UE. Cyhoeddwyd gyntaf ym mis Awst 2016. |
| Dim | | **Framework for the UK-EU Security Partnership**<br><br>9 Mai | Mae'r cyflwyniad hwn yn esbonio gweledigaeth Llywodraeth y DU ar gyfer Partneriaeth Diogelwch rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. |
| Dim | | **Home Secretary letter to Guy Verhofstadt MEP**<br><br>16 Mai | Mae Sajid Javid yn ymateb i lythyr gan Guy Verhofstadt, cydlynydd Brexit Senedd Ewrop, am y broses ymgeisio i ddinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU. |
| **Slide on customs controls**<br><br>22 Mai 2018 | Mae'r sleid hon yn tynnu sylw at y gwiriadau a'r rheolaethau y mae angen eu cynnal ar nwyddau sy'n dod i mewn i diriogaeth tollau'r UE, yn teithio trwyddi neu'n ei gadael. | Dim. | |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| Dim | | **Framework for the UK-EU Partnership Science, Research and Innovation**<br><br>23 Mai 2018 | Mae'n canolbwyntio ar gynigion y DU ar gyfer cydweithrediad parhaus ym maes gwyddoniaeth, ymchwil ac arloesedd. |
| Dim | | **Framework for the UK-EU Partnership Data Protection**<br><br>23 Mai 2018 | |
| Dim | | **Technical note on consultation and cooperation on external security**<br><br>24 Mai 2018 | Mae'r nodyn yn amlinellu opsiynau ar gyfer trefniadau ymgynghori a chydweithredu rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol ar draws polisi tramor, polisi diogelwch ac amddiffyn cyffredin, galluoedd amddiffyn a datblygu ac offerynnau allanol. |
| Dim | | **Technical note on security, law enforcement and criminal justice**<br><br>24 Mai 2018 | Mae'r nodyn yn rhoi dadansoddiad o'r cynseiliau presennol ar gyfer cydweithredu rhwng yr UE a thrydydd gwledydd ym maes diogelwch, gorfodi'r gyfraith a chyfiawnder troseddol cyn nodi cynigion y DU ar gyfer cytuniad diogelwch mewnol |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| | | | newydd â'r UE ar gyfer cydweithredu yn y dyfodol ar draws y meysydd hyn. |
| Dim | | **Framework for the UK-EU Economic Partnership**<br><br>24 Mai 2018 | Mae'r cyflwyniad hwn yn esbonio gweledigaeth Llywodraeth y DU ar gyfer Partneriaeth Economaidd rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. |
| Dim | | **Technical note on UK's participation in Galileo**<br><br>24 Mai 2018 | Mae'r nodyn yn nodi sefyllfa'r DU ar gyfranogiad yn rhaglen Galileo. |
| Dim | | **Technical note on the exchange and protection of classified information**<br><br>25 Mai 2018 | Mae'r nodyn yn pennu sefyllfa'r DU ar y trefniadau technegol angenrheidiol ar gyfer cyfnewid a diogelu gwybodaeth gyfrinachol rhwng y DU a'r UE. |
| Dim | | **EU exit preparations: DfT ministerial direction**<br><br>29 Mai 2018 | Gohebiaeth yn gofyn am gyfeiriad gweinidogol o ran paratoadau i adael yr UE a gohebiaeth i gadarnhau hyn. |
| Notice to stakeholders on **preferential origin of goods** and the **enforcement of** | | **Technical note on temporary customs arrangement**, | Mae'r nodyn yn pennu cynnig y DU i elfen tollau trefniad fodloni ei hymrwymiadau o |

| Papur yr UE | Cynnwys Papur yr UE | Papur y DU | Cynnwys Papur y DU |
|---|---|---|---|
| **intellectual property rights** – 5 Mehefin | | 7 Mehefin 2018 | ran Gogledd Iwerddon. |

# 3. Meysydd allweddol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol

## Paratoi ar gyfer Brexit

Roedd adroddiad monitro Brexit y mis diwethaf yn cynnwys cyfeiriad at **ymateb Claire Perry AS, Gweinidog Gwladol y DU dros Ynni a Thwf Glân**, i **adroddiad diweddar gan Bwyllgor Dethol ar yr UE Tŷ'r Arglwyddi ar Brexit** a Diogelwch Ynni. Yn ymateb y Llywodraeth dywedwyd bod cynnydd da wedi'i wneud wrth baratoi'r DU i gymryd cyfrifoldeb cyfreithiol dros ei chyfundrefn ddiogelu niwclear ei hun ar ôl i'r DU adael Euratom.

Ar 16 Mai, **honnodd Sky News ei fod wedi cael gafael ar ddogfen y Llywodraeth** sy'n datgelu cofrestr risgiau mewnol a luniwyd gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear, gan dynnu sylw at nifer o feysydd risg uchel lle nad yw paratoadau ar gyfer sefydlu cyfundrefn ddiogelu yn y DU wedi datblygu'n ddigonol. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys datblygu system TG newydd ar gyfer olrhain deunydd niwclear, recriwtio a hyfforddi arolygwyr, sicrhau cyllid, a chael mynediad at yr offer angenrheidiol.

Yn dilyn hyn, **ysgrifennodd Is-bwyllgor Ynni ac Amgylchedd yr Undeb Ewropeaidd** at Richard Harrington AS, y Gweinidog Busnes a Diwydiant, ar 18 Mai yn mynegi pryder a ellir dweud bod cynnydd wir yn dda a gofynnodd am ymateb i adroddiadau cyfryngau bod y Swyddfa dros Reoli Niwclear yn colli tir yn ei hymdrechion i baratoi at Brexit.

Ar 24 Mai, **cyhoeddodd Pwyllgor Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin** ei adroddiad diweddaraf ar gynnydd negodiadau'r DU ar ymadael â'r UE (mis Mawrth i fis Mai 2018). Daeth yr adroddiad i'r casgliad a ganlyn:

> It is highly unsatisfactory that nearly two years after the referendum, Ministers have yet to agree, and set out in detail, what kind of trading and customs arrangements they wish to seek in negotiations with the European Union. The Secretary of State has said that the EU's dismissal of the UK's original proposals for its future customs arrangements was an opening negotiating position. However, the Government admits that further work is required to make both the maximum facilitation proposal and the new customs partnership proposal viable propositions. Moreover, trade in goods currently regulated through the Customs Union is not the only challenge that must be resolved in order to secure frictionless trade. Significant elements of intraEU trade are

> also regulated through Single Market legislation that sits alongside the Customs Union.

Ar y posibilrwydd o estyn aelodaeth y DU o Undeb Tollau'r UE, **mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad a ganlyn**:

> The Government has indicated that neither the maximum facilitation proposal nor the new customs partnership, if agreed, is likely to be ready in time during the agreed 21-month transition/implementation period. Each option will have to be judged against the commitment repeatedly made by the Government to have no hard border in Northern Ireland, no infrastructure at the border and to uphold in full the Good Friday/Belfast Agreement. The Prime Minister has alluded to "contingencies" that can be triggered in this eventuality but has not set them out. The Secretary of State has ruled out any extension of the Customs Union but in the absence of any other plan, such an extension will be the only viable option.

## Goblygiadau Brexit i Gymru

Yn y **Cyfarfod Llawn ar 16 Mai**, dywedodd Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, o ran disodli cronfeydd rhanbarthol yr UE yng Nghymru,

> na fyddai gwneud cynigion na mabwysiadu ymagwedd sy'n deillio o fformiwla Barnett tuag at gronfa cyd-ffyniant yn dderbyniol i ni yma yng Nghymru, gan gofio nad yw'r gronfa hon yn tarddu o Gymru a bod y blaid a'i cynigiodd yn bendant heb sicrhau mwyafrif o'i phlaid yma yng Nghymru.

Fodd bynnag, ar 22 Mai, dywedodd Philip Hammond AS, Canghellor y Trysorlys, **yn Nhŷ'r Cyffredin**:

> Once we have left the European Union the money that was reaching the UK from EU sources will be allocated to the UK shared prosperity fund, and over the course of this year we will consult on both the distribution and the application of those funds and the size that that fund should be.

Cadarnhawyd yr ymagwedd hon mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 23 Mai, lle dywedodd Elizabeth Truss AS, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys y canlynol:

> We will launch the UK Shared Prosperity Fund following the UK's departure from the European Union.
>
> The implementation period included within the draft Withdrawal Agreement with the EU means that we will see all parts of the UK receive their full allocation of structural funds from the EU's 2014-2020 budget.
>
> The Industrial Strategy White Paper set out that we intend to consult this year on the precise design and priorities for the fund. Further details on the operation of the UK Shared Prosperity Fund will be set out following this consultation.

Ar 23 Mai, ymddangosodd Suella Braverman AS a Mr Robin Walker AS, Is-ysgrifennyddion Seneddol, Adran dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, **gerbron Pwyllgor Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar weithdrefnau seneddol ar gyfer cymeradwyo a gweithredu Brexit, fel rhan o'i ymchwiliad parhaus i gynnydd negodiadau'r DU ar ymadael â'r UE. Yn ei dystiolaeth, trafododd Mr Walker effaith bosibl ffin galed ar Gymru, gan adrodd:

> We want to ensure continued frictionless movement within the UK market and between Northern Ireland and Wales. I know that is an important channel for that movement, so we will ensure that continues to happen.

**Yn ystod sesiwn dystiolaeth gyda Phwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad** ar 14 Mai, mynegodd y Prif Weinidog Carwyn Jones AC bryder nad yw Llywodraeth Cymru wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan yn y **Gweithgor Masnach rhwng Awstralia a'r DU**. Yn dilyn hyn, ar 23 Mai, cynhaliodd Pwyllgor Masnach Ryngwladol Tŷ'r Cyffredin **sesiwn dystiolaeth** ar berthynas fasnach y DU gydag Awstralia a Seland Newydd. Roedd y tystion yn cynnwys Kevin Roberts, Cadeirydd Hybu Cig Cymru. Yn ystod y sesiwn, trafododd tystion yr effaith bosibl y gallai Brexit, yn ogystal â chytundebau masnach posibl yn y dyfodol gydag Awstralia a Seland Newydd, ei chael ar amaethyddiaeth yn y DU, gan gynnwys ffermio defaid yng Nghymru. Yn ei dystiolaeth, dywedodd Mr Roberts:

> [...] the sector that is most at risk from a hard exit—the sheep sector in Wales. Wales is overweight in sheep and 30% of its production is exported to the single market. If we lose that market because we revert to WTO rules and tariffs—at 50% tariffs for sheep-meat into the EU—we lose the market. We then have an excess of supply in the UK market

> and we tend to export the elements of the sheep that we don't want to eat. So we've then got a big consumer challenge about trying to persuade consumers in the UK to start consuming parts of the sheep that they don't normally consume… 95% of exports of sheep meat from Wales go to the single market.

# 4. Ymateb Llywodraeth Cymru

Nodir yn yr adrannau uchod ymateb Llywodraeth Cymru i gyhoeddiadau ar y gronfa ffyniant a rennir a sefydlu Fforwm Gweinidogol ar negodiadau'r UE.